Roeddem ni'n falch iawn i sicrhau contract Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwi cefnogaeth llinell gymorth i oroeswyr traïs rhywiol a cham-drin domestig. Rhoddom ni gyngor a chefnogaeth i gomisiynwyr ledled Cymru i ddatblygu asesiadau angen, strategaethau a chynlluniau comisiynu. Yn bwysicaf oll, gwelsom y gefnogaeth i'n haelod-sefydliadau'n cryfhau ac yn ffynnu, sefydlom ni rwydwaith o gysylltiadau annibynnol i ddarparu cymorth i adeiladu capasiti ein gwasanaethau a chydlynol ni adborth cenedlaethol gan oroeswyr i lywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad blynnyddol hwn yn disgrifio rhai o'n llwyddiannau yn ystod 2015-2016. Ni fyddem yn gallu gwneud y gwaith hwn heb gymorth ein cyllidwyr a'n cefnogwyr, a nhw gyda'i gilydd sy'n sicrhau bod ein gwasanaethau hanfodol ar draws Cymru'n bosibl.

Hoffwn ddiolch i'n tîm ymroddgar o Ymddiriedolwyr. Cynhaliom ni ymgyrch reciwtio mawr eleni, a bu'n faint cael gweithio gyda saith Ymddiriedolwr newydd a ymunodd â'r pedwar oedd eisoes gennym ni, ac erbyn hyn mae gennym set sgiliau cryf ac eithriadol i arwain Cymorth i Ferched Cymru dros y blynnyddoedd nesaf.

Mae'r Bwrdd yn hynod o ddiolchgar am ymroddiad ac ymrwymiad ein holl dîm o staff a gwirfoddolwyr, dan arweiniad ein Prif Weithredwr. Diolch i'w gwaith caled a'u hymroddiad nhw mae Cymorth i Ferched Cymru'n parhau i arwain y ffordd yng Nghymru a gyda'i gilydd yn cyfrannu at ein nod cyffredin sef dileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.



...gan ein Prif Weithredwr, Eleri Butler

Rydym ni'n parhau gyda'n nod o gyflawni byd heb gam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Mae gwreiddiau cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod i'w gweld mewn camwahaniaethu ac anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, a chredwn eu bod yn rhagweladwy ac y gellir eu hatal. Mae deddfwriaeth yr helpon ni ei siapio (Deddf Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015), bellach yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus atal traïs yn erbyn menywod ym mhöpeth a wnânt, sydd, ynghyd â ffocws ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol, bellach yn sail ar gyfer newid gwirioneddol yng Nghymru.


Mae gan ein gwasanaethau gyfraniad hanfodol i'w wneud i gyflawni atal, yn ogystal ag ymyrraeth gynnar, diogelu a chymorth. Eleni, rydym ni wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu model Newid sy'n Para i atal traïs yn erbyn menywod ac ymyrraeth gynnar yng Nghymru. Drwy ganolbwytio ar anghenion a chryfderau, ar newid ymddygiad mewn cymunedau ac asiantaethau, gallwn wneud gwahaniaeth i adferiad tymor hir ac annibyniaeth goroeswyr.

Hoffwn ddiolch i'r rheini sy'n sicrhau bod newid yn bosibl: ein cyllidwyr, ein tîm medrus o staff a gwirfoddolwyr, Ymddiriedolwyr, a'n rhwydwaith genedlaethol o wasanaethau arbenigol. Yn bennaf, diolch i gymorth ac arbenigedd goroeswyr sy'n llywio ein gwaith. Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni argymhellion goroeswyr ar gyfer gweithredu i ddiwallu anghenion a dileu cam-drin.

Ond mae newid yn cymryd amser ac mae'r galw am ein gwasanaethau'n parhau i dyfu. Bydd 1 menyw ym mhob 3 yn profi traïs a cham-drin ar ryw adeg, a chaiff 1 fenyw ei lladd bob 3 diwrnod oherwydd traïs gan wryw. Os ydych chi'n cefnogi ein cynlluniau i gyflawni newid sy'n para, ymunwch â'n mudiad drwy ddod yn llysgennad neu'n gefnogwr, i'n helpu ni i atal traïs a cham-drin a gwella bywydau'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.



Ein llwyddiannau yn 2015/16



24

o aelod-sefydliadau'n
cynnig gwasanaethau
arbenigol ar draws
Cymru



28,392

O alwadau a negeseuon ebost i'n llinell
gymorth genedlaethol (Byw heb Ofn) sy'n
darparu cymorth diogel, cyfrinachol i
oroeswyr traïs rhywiol a cham-drin domestig;

14,066 o oroeswyr wedi'u cynorthwyo gan y llinell
gymorth (drwy alwadau uniongyrchol a gweithwyr
profesiynol yn galw ar eu rhan) a 2,973 o oroeswyr
(2,063 o fenywod, 868 o blant a phobl ifanc, 42 o
ddynion) wedi'u cynorthwyo i gael gwasanaethau
lloches yng Nghymru

Bydd 1 menyw ym
mhob 3 yn profi traïs a
cham-drin ar ryw adeg
ac ar gyfartaledd caiff
dwy fenyw yr wythnos
eu lladd gan bartner
neu gynbartner

Bydd 1 ym mhob 7
plentyn a pherson ifanc
wedi byw gyda cham-
drin domestig

11,512

o oroeswyr wedi'u cynorthwyo
gan wasanaethau arbenigol
yng Nghymru:

5,159

o oroeswyr wedi'u cynorthwyo
gan y gwasanaeth allgymorth
cymunedol; 4252 o fenywod,
726 o blant a phobl ifanc,
a 181 o ddynion.

3,380

o oroeswyr wedi'u cynorthwyo
gan wasanaeth cymorth
symudol

2,973

o oroeswyr wedi'u cynorthwyo
mewn lloches



693

O danysgrifwyr i'n briffiadau,
diweddarriadu polisi a
chylchlythyrau, cynnydd o
+6% ar y flwyddyn flaenorol

1,640

O bobl yn ein dilyn drwy Twitter
a Facebook, cynnydd o
+5% ar y flwyddyn flaenorol



Amcangyfrifir bod 140
yn dioddef anffurfio
organau cenhedlu
benywod bob blwyddyn
a bod hyd at 100
priodas dan orfod
bob blwyddyn yng
Nghymru

Mae cam-drin domestig
yn costio £303.5m
y flwyddyn yng
Nghymru. Mae ei gost
ddynol ac emosynol yn
£522.9m ychwanegol



Atal: addysg ac ymwybyddiaeth i newid agweddau ac ymddygiad

Gorymdaith 'Golau Canwyll' i Eglwys Gadeiriol Llandaf

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, ac yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau croestoriadol. Eleni rydym ni wedi parhau i gyflawni gwaith ataliol drwy addysg, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyhoeddus am drais a cham-drin, cydraddoldeb a hawliau dynol.

I goffáu'r **Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn erbyn Menywod ac yn dilyn 16 Diwrnod o Weithredu i ddileu traís ar sail rhywedd (Tachwedd 25 - Rhagfyr 10)**, ymunom ni â BAWSO a gwasanaethau eraill, goroeswyr a grwpiau aml-ffydd a chymunedol, i godi ymwybyddiaeth o drais a cham-drin mewn cymunedau lleol drwy gefnogi gorymdaith flynyddol 'Golau Cannwyll' a gwasanaethau aml-ffydd yng ngogledd a de Cymru.

Bob blwyddyn, ceir cefnogaeth gref gan Aelodau Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ym mis Tachwedd 2015 a thrwy gydol y '16 Diwrnod' buom yn galw ar Aelodau Cynulliad o bob plaid i addunedu eu cefnogaeth i ddileu traís yn erbyn menywod, er mwyn codi proffil yr angen i atal traís a cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol.



Leighton Andrews, y Gweinidog
— Gwasanaethau Cyhoeddus

16 Days of Activism Against Gender-Based Violence Campaign
NOVEMBER 25 - DECEMBER 10



Yn 2015-2016, ar ôl ymgynghori sylweddol a derbyn cyngor gan Cymorth i Ferched Cymru ac eraill, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddf arloesol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a phenodwyd Cynghorydd Cenedlaethol newydd ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, pob math o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Domestig. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gam sylweddol yn ein

hymdrehchion i atal trais yn erbyn menywod yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus atal trais yn erbyn menywod ym mhopeth maent yn ei wneud. Ynghyd â ffocws ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol mae'r ddeddfwriaeth hon a'r strategaeth a'r fframwaith polisi atodol bellach yn sail ar gyfer sicrhau newid sy'n para i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae Gwasanaeth Hyfforddiant Cenedlaethol Cymorth

i Ferched Cymru yn ganolfan achrededig Agored Cymru sy'n cyflenwi hyfforddiant o ansawdd uchel i amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ar draws Cymru er mwyn galluogi gwasanaethau i wella eu hymarfer a diwallu anghenion goroeswyr.



'Roedd yn gyfle prin i lawer o sefydliadau ddod at ei gilydd i drafod trais yn erbyn menywod a materion yn ymwneud â menywod yn gyffredinol.'



'Addysgiadol iawn a heriol hefyd mewn mannau. Cyfle da i ddychwelyd a thrafod pynciau anodd. Gallai gynnig cyfle i ddyylanwadu ar newidiadau polisi yn y dyfodol ar draws Cymru'

Ym mis Tachwedd 2015, fel rhan o'n rhaglen genedlaethol o addysg a hyfforddiant, cynhaliwyd seminar partneriaeth cenedlaethol yn canolbwytio ar ymyrryd sylfaenol o ran traision yn erbyn menywod. Ymunodd dros 80 o weithwyr proffesiynol o bob rhan o Gymru â ni, a gyda phanel o siaradwyr arbenigol, trafodwyd ymarfer gorau o ran hyrwyddo cydraddoldeb menywod, hybu atal ymhilith plant a phobl ifanc, atal traision a thrais rhywiol, mentrau gwyliedyddion mewn lleoliadau addysg a chymunedol, a sut mae'r gwasanaethau arbenigol yn gweithio i gyflawni atal mewn cymunedau ar draws Cymru.

Eleni, sefydlom ni bartneriaeth genedlaethol gyda gwasanaethau arbenigol i gynyddu ein cwmpas a'n cyflenwi, ac mewn ymateb i

Byddai 100% o'r rhai oedd yn bresennol yn argymhell y seminar i'w cydweithwyr

adborth gan oroeswyr cam-drin, mae menywod sydd wedi profi cam-drin bellach yn rhan o'r gwaith datblygu hyfforddiant.

'Pe bai gweithwyr proffesiynol yn gallu clywed menywod mewn grŵp, gwybod sut beth yw e. Maen nhw'n cael eu hyfforddi ond dydyn nhw ddim wir yn clywed y fenyw sydd wedi bod drwyddo. Efallai y gallen ni ffil mio menywod a gallai asiantaethau glywed sut beth yw e mewn gwirionedd i ni.'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Fel partneriaeth, llwyddom ni hefyd i sicrhau contract cenedlaethol Hyfforddi'r Hyfforddwr 'Gofyn a Gweithredu' Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod yr holl awdurdodau cyhoeddus yn gallu adnabod ac ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Cymru.

Mae'r contract hwn yn elfen ganolog o Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio creu cymorth mwy cyson i'r rheini sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a safon gwasanaeth di-feth drwy holl wasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector Cymru.

'Bu'r cwrs yn rhagorol, addysgiadol, addysgol a chefnogol. Cyflwynwyd llawer o wybodaeth yn glir a dealladwy. Rwy'n teimlo i mi elwa o'r ddau ddiwrnod diwethaf ac yn hyderus i ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr.'

'Fe fwynheais i'r cwrs yn fawr, roeddwn yn gyfforddus gyda'r hyfforddwr a'r grŵp. Cefais lawer o wybodaeth a'r hyder i'm galluogi i fynd â'r wybodaeth ymlaen ac addysgu fy nghydweithwyr.'

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yn bleser croesawu'r Athro Evan Stark i Gymru, sef yr un a greodd y cysniad o reolaeth gymhellol ac a gynghorodd Llywodraeth y DU ar ei gwneud yn drosedd. Trefnom ni ddigwyddiad deuddydd yn edrych ar sut y dylai gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai, heddlu ac arbenigol ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru adnabod ac ymateb i reolaeth gymhellol. Daeth dros 150 o gynrychiolwyr, gan gynnwys 70 o Heddlu De Cymru.

Dyweddodd 100% o ymatebwyr bod eu gwybodaeth am reolaeth gymhellol wedi cynyddu yn sgil y digwyddiad hwn.



The National Training Framework on violence against women, domestic abuse and sexual violence:

Statutory guidance under section 15 of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 and section 60 of the Government of Wales Act 2006

17 March 2016

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

CC BY © Crown copyright 2016 WG2755 Digital ISBN 978 1 4712 5561 0



Professor Evan Stark

'Diwrnod addysgiadol iawn, a siaradwyr rhagorol. Cadarnhaol iawn bod rheolaeth gymhellol bellach yn cael ei chydnabod ymhliith asiantaethau.'

— Cynrychiolydd Diwrnod Un



SAFETY, TRUST AND RESPECT
DIOGELWCH, YMDDIRIED A PHARCH

Mae ein prosiect atal **Mae Plant yn Bwysig** sydd wedi'i hen sefydlu yn ceisio gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan brofiadau niweidiol cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod eu plentynnod, annog ymyrraeth gynnar ac atal gan weithwyr proffesiynol, a hyrwyddo perthynasau iach a chydradd, cydsyniad a pharch ymhlieth plant a phobl ifanc.

Ysgrifennodd a chefnogodd ein tîm y Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a thrais Rhywiol yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Gweithiom ni mewn partneriaeth hefyd i greu pecyn cymorth o adnoddau effeithiol i sefydliadau addysg er mwyn cynorthwyo ysgolion a gwasanaethau addysg bellach i gyflwyno agwedd addysg gyflawn at atal ac ymateb yn effeithiol i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth.

Hyfforddwyd cannoedd o weithwyr proffesiynol a'u cynorthwyo i gyflwyno **Gwasanaethau S.T.A.R** mewn gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau ieuencnid, unedau cyfeirio disgylion, gwasanaethau teuluol, cyfiawnder ieuencnid a rheoli troseiddwyr, a llwyddodd yr hyfforddiant i alluogi **8,586 o blant a phobl ifanc** i gael cymorth drwy'r rhaglen. O ganlyniad:

- dywedodd 95% o blant fod ganddyn nhw fwy o wybodaeth am gam-drin domestig, fyddai'n eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus yn y dyfodol
- dywedodd 92% o blant eu bod yn gwybod ble i fynd os oedden nhw'n profi cam-drin domestig
- dywedodd 90% fod ganddyn nhw'r adnoddau i deimlo'n fwy diogel yn dilyn y rhaglenni

Lansiwyd 'eFforwm Ymarferwyr Mae Plant yn Bwysig' eleni, sy'n cynnig man diogel ar-lein i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gyrchu cymorth ac arweiniad, rhannu adnoddau ac ymarfer gorau, a rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ar draws Cymru.

Mae pobl ifanc yn ymrwymo i gynnal perthynas iach ar ôl mynychu Rhaglen S.T.A.R i Bobl Ifanc

Tell somebody
Talk to people
do not hide

I pledge to not accept any abuse or harmful activity from anyone and tell someone I trust if anything happens.

I Pledge to stand up and speak about Domestic abuse when ever it is happening. and show respect to the people it is happening happen to.

Boys Shall not be sexually abusive to girls they should be kind and friendly.

Mae 24 o gyrrff aelodaeth arbenigol yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau ac yn newid bywydau ar draws Cymru i oroeswyr trais a cham-drin.

Darpariaeth: Cefnogi gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru

Yn 2015 cynorthwyom ni'r sector arbenigol yng Nghymru drwy gyflwyno Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, gan roi rhaglen ar waith i adeiladu capaciti a darparu cyngor a gwybodaeth. Hefyd datblygwyd trefniadau casglu data a gwybodaeth i wella'r sail tystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd ac effaith darpariaeth gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

'Allaf i ddim canmol Cymorth i Ferched ddigon, cefais i wybodaeth ganddyn nhw am fy hawliau a fy opsiynau'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Mae gwasanaethau arbenigol i oroeswyr yn cynnwys gwasanaethau lloches sy'n darparu cymorth lloches, cymorth symudol ac allgymorth cymunedol; argyfwng trais, cymorth a chwnsela; eiriolaeth annibynnol a chanolfannau menywod 'siop un stop'. Nod y gwasanaethau trydydd sector hyn yw cyflenwi cymorth a arweinir gan anghenion, ar sail cryfderau, yn ymateb i rywedd a thrawma. Mae ganddynt bedwar degawd o brofiad yn diogelu, cefnogi a grymuso goroeswyr a'u plant, ac maent yn gweithio i atal trais a cham-drin rhag dechrau a gwaethygu. Caiff gwasanaethau arbenigol eu darparu gan staff arbenigol sydd â gwybodaeth fanwl am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

'Doeddwn i ddim yn cael gwneud ffrindiau a doedd y plant ddim yn cael gwneud ffrindiau. Felly mae'r menywod y des i'w hadnabod drwy'r gwasanaethau cymorth yn bwysig iawn i fi nawr, rwyf i wedi gwneud ffrindiau da, a doeddwn i ddim yn cael gwneud hynny o'r blaen'


— Goroeswr, Grŵp Ffocws



Yng Nghymru, rydym ni'n cydlyn u **achrediad Safonau Ansawdd**

Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n darparu set o safonau ansawdd gwasanaeth achrededig i ddarparwyr gwasanaeth, cyllidwyr a chomisiynwyr. Caiff y safonau eu hasesu gan aseswyr annibynnol hynod fedrus a chymwysedig a'u hadolygu gan banel cenedlaethol sy'n cynnwysaelodau annibynnol, gan gynnwys goroeswyr.

Mae'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn cefnogi nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei dyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhai ansawdd uchel. Bydd y safonau'n parhau i gael eu cyflwyno drwy gydol 2016.



‘Un o fy nghyfrifoldebau allweddol fel Cyngorydd

Cenedlaethol yw gwella cysondeb, cydlyn u ac ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth ar draws Cymru i alluogi unigolion, ble bynnag maen nhw'n byw, i fanteisio ar wasanaethau cynhwysol, ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn cynnig fframwaith o sicrwydd ar sail tystiolaeth i'r darparwr, y comisiynydd a'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Dylai cyflwyno'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth fod yn sail ar gyfer modelau comisiynu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau VAWDASV; gan ddarparu nod ansawdd y dylai pob darparwr weithio at ei gyflawni'

— Rhian Bowen-Davies, Cyngorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, 2015.

Eleni parhawyd i ddiweddu ein gwasanaethau arbenigol ar bolisiau a newidiadau gweithdrefnol a allai effeithio ar gyflenwi eu gwasanaethau.

Anfonwyd 26 o ddiweddariadau polisi ac ymarfer yn ystod 2015-16 at aelod-wasanaethau arbenigol yng Nghymru, a chafwyd dros 150 o ymweliadau a chysylltiadau gyda gwasanaethau arbenigol i drafod eu hanghenion gwasanaeth a chynnig cymorth.



Roedd hyn yn cynnwys seminar cenedlaethol ar wella cymorth i oroeswyr cam-drin domestig trawsrywiol. Dan arweiniad panel o siaradwyr arbenigol oedd â phrofiad o ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau a pholisiau LGBT+, trafododd y seminar sut gall gweithwyr proffesiynol lliniaru'r rhwystrau mae goroeswyr trawsrywiol yn eu hwynebu wrth gyrchu cymorth, a sut i wella ymatebion i helpu goroeswyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Buom hefyd yn hybu ac yn hyfforddi ar ein Polisi a Chanllaw Gweithdrefnol Trawsrywiol cenedlaethol ac yn rhannu ymarfer gorau ar gyflenwi gwasanaethau yn ymateb i rywedd.

Parhaom ni i **gynnig llais cenedlaethol i wasanaethau arbenigol** drwy gyfleo eu profiadau i'r llywodraeth a gwneuthurwyr polisi. Ein nod yw sicrhau bod y newidiadau mae gwasanaethau arbenigol yn galw amdanyst i ddiwallu anghenion goroeswyr yn llywio datblygiadau polisi ac ymarfer cenedlaethol.

Cyflwynwyd 24 ymateb ymgynghoriad, wedi'u llywio gan ein haelodau sy'n wasanaethau arbenigol

Yng Nghymru, gyda'n gilydd fe gawsom effaith wirioneddol ar gynnwys Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), a chyfrannwyd adborth er mwyn gwella Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru); yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd; canllawiau Codi Uchelgais a Chyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru; y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Cynllun Cyflenwi Ffaoduriaid a Cheiswyr Lloches; arweiniad ar Reoli Economi'r Nos; Cynllun Cyflenwi Gyda'n Gilydd Dros Iechyd Meddwl; a chyfrannu at yr ymgynghoriad ar Gyllideb 2015-17 Llywodraeth Cymru.

Yn San Steffan, roedd ein gwaith ar faterion heb eu datganoli'n cynnwys cyflwyno tystiolaeth i Wrandoedd Seneddol ar Lysoedd Teuluol Grŵp Hollbleidiol Seneddol San Steffan ar Drais Domestig, Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar Buteindra, ac ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar gyflwyno Gorchymyn Diogelu Stelcio. Rydym ni'n parhau i godi materion fel effaith toriadau i Gymorth Cyfreithiol a newidiadau i fudd-daliadau ar oroeswyr a darparwyr llety â chymorth fel llochesi.



lyn 2015-16, dechreuodd Cymorth i Ferched Cymru ein **hymgyrch Achub Llochesi**, **Achub Bywydau** sy'n galw am ddiogelu cyllid y llywodraeth ac awdurdodau lleol i wasanaethau arbenigol yng Nghymru.

Mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol a gyda chymorth data ar gynaladwyedd cyllid a galw am wasanaethau, lluniom ni becyn cymorth i'r hymgyrch gan hybu'r angen am fodel o cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol.

Cyflwynwyd y dystiolaeth a gasglwyd mewn dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Bwylgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac fe'i codwyd sawl tro gan Aelodau Cynulliad mewn trafodaethau dilynol.

‘Y menywod yn y gwasanaeth hwn achubodd fy mywyd i. Doeddwn i ddim yn gallu ymdopi ac fe roddon nhw fy mywyd yn ôl i fi. Roeddwn i’n byw mewn sefyllfa afreal ac roedden nhw’n deall. Gwnaethon nhw i fi deimlo’n llai ynysig a helpon nhw fi i fy ffeindio fy hun unwaith eto.’

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

‘Mae'r llochesi'n chwalu'r ynysu, yn eich cael chi allan o'r sefyllfa, ac maen nhw'n eich credu chi. Er ein bod ni i gyd o gefndiroedd gwahanol maen nhw'n ein dal ni i gyd am eu bod yn gwybod beth rydyn ni wedi bod drwyddo. Wn i ddim beth fyddai'n digwydd pe na baen nhw yma.’

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Yn 2016, ymunom ni â Ffederasiynau Cymorth i Ferched y DU i ymgyrchu yn erbyn newidiadau arfaethedig i gyllido tai â chymorth, ac ers hynny rydym ni wedi croesawu datganiad Llywodraeth y DU y caiff llochesi cam-drin domestig eu heithrio o'r cap ar gyfraddau budd-dal tai'r Lwfans Tai Lleol mewn llety â chymorth tan 2019/20. Byddai dros ddwy ran o dair o'r llochesi yng Nghymru wedi'u gorfodi i gau, pe bai'r cap ar fudd-dal tai wedi'i gyflwyno.

‘Mae angen i blant wybod beth sy'n anghywir a beth sy'n iawn mewn perthynas, beth sy'n dderbyniol a pha help – pa wasanaethau – sydd ar gael. Mae angen iddo fod yn briodol i'r oed, yn yr ysgol gynradd – dylai fod yn orfodol ac nid yn fater o ddewis oherwydd efallai na fydd rhieni a rhai plant yn ei gael. Wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn, yn yr ysgol uwchradd, mae bechgyn eisoes yn taro merched yn yr ysgol, er ei fwyn ei hun, a does neb yn herio hyn. Mae angen i hyn barhau'r holl ffordd drwy'r brifysgol.’

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Lletywyd a chynorthwywyd 1,518 (57%) o fenywod a gyfeiriwyd at gymorth lloches, a lletywyd a chynorthwywyd 41 (45%) o ddynion a gyfeiriwyd at gymorth lloches.

Roedd 388 o oroeswyr yn methu â chael lle mewn lloches pan oedd angen cymorth arnynt, am nad oedd lle ar gael i ddiwallu eu hangen.

O 2,060 o fenywod a gyfeiriwyd at wasanaethau cymorth symudol llochesi, cynorthwywyd 1613 (78%) o fenywod. Cyfeiriwyd 29 o ddynion a chynorthwywyd 22 (76%). Yn 2015-16, roedd 123 o fenywod ar restr aros am gymorth.

O 4,091 o fenywod a gyfeiriwyd at wasanaethau allgymorth cymunedol llochesi, cynorthwywyd 2,960 (72%) o fenywod. Cyfeiriwyd 153 o ddynion a chynorthwywyd 119 (78%). Roedd y cyfeiriadau'n cynnwys 646 o blant a phobl ifanc, ac o'r rhain cafodd 385 (56%) o blant a phobl ifanc eu cynorthwyo'n uniongyrchol.

Diogelu a chymorth: dan arweiniad anghenion ac ar sail cryfderau

Yn 2015-16 fe barhaom ni i gefnogi goroeswyr drwy Linell Gymorth Byw heb Ofn Cymru, a chyflenwi gwasanaethau lloches, eiriolaeth a chymunedol dan arweiniad anghenion ac ar sail cryfderau ym Mae Colwyn a Wrecsam.

Cafodd 14,066 o oroeswyr gymorth gan wasanaeth y Llinell Gymorth, sef 74% o'r holl alwadau i'r llinell gymorth

Parhaodd **Llinell Gymorth Byw heb Ofn** i ddarparu llinell gymorth 24 awr y dydd, 365 dydd y flwyddyn, amlieithog i oroeswyr ac unrhyw un sy'n ceisio gwybodaeth neu gymorth yn ymwneud â thrais rhywiol, cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

Eleni, derbyniodd y Llinell Gymorth 28,392 o geisiadau am gymorth drwy alwadau a chyswllt ebost. Mae hyn yn gynnydd o 7% yn y nifer o alwadau dros y chwe mis diwethaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 43% o gynnydd mewn negeseuon ebost yn ceisio cymorth.

Mae'r galwadau eraill a gaiff eu derbyn yn dod gan weithwyr proffesiynol neu bobl bryderus eraill sy'n ceisio cymorth a help ar ran goroeswyr, ac sy'n cynnwys gwasanaethau'n chwilio am lefydd mewn lloches i oroeswyr, drwy system Llochesi Ar-lein y DU, a gaiff ei rheoli mewn partneriaeth gyda Ffederasiynau Cymorth i Ferched y DU.

O'r goroeswyr a ddarparodd adborth ar y gwasanaeth:

- nododd 91% o oroeswyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel ar ôl cysylltu â'r llinell gymorth
- nododd 93% o oroeswyr bod eu llesiant emosiynol wedi gwella ar ôl cysylltu â'r llinell gymorth
- nododd 98% o oroeswyr iddynt gael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol
- nododd 98% o oroeswyr eu bod wedi cael cymorth arbenigol a gwybodaeth a'u galluogodd i wneud dewisiadau gwybodus.

'Diolch yn fawr. Roedd yn gymaint o help cael siarad gyda rhywun sy'n deall ac oedd yn sensitif i fy anghenion.'

'Mae'n dda gwybod bod rhywun ar ben arall y ffôn i siarad gyda fi.'



Yn 2015/16, dyfarnwyd y safon ansawdd genedlaethol gydnabyddedig sy'n diffinio ac yn achredu ymarfer gorau mewn gwaith llinell gymorth am y trydydd tro.

Mae Gwasanaethau Cymorth i Ferched Cymru

Wrecsam a Bae Colwyn yn cynorthwyo goroeswyr a'u plant sydd wedi profi cam-drin corfforol, seicolegol, emosiynol, rhywiol a/neu ariannol, a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae'r gwasanaethau'n darparu gwybodaeth, cymorth ymarferol, eiriolaeth a chymorth i fenywod, plant a phobl ifanc, i helpu goroeswyr i gwrdd â'u hanghenion, adeiladu ar eu cryfderau a'u galluogi i gyflawni annibyniaeth a rhyddid rhag cam-drin yn y tymor hirach.

- Cyfeiriwyd 113 o oroeswyr am gymorth lloches yn Wrecsam a Cholwyn ac o'r rhain, roedd modd lletya a chynorthwyo 39 o fenywod a 48 o blant. Defnyddiodd 805 o oroeswyr ein gwasanaethau 'siop un stop' oedd yn cynnwys gwaith grŵp, sesiynau cyngor a chymorth unigol, eiriolaeth a chymorth drwy'r llysoedd, galw heibio a chymorth gan gymheiriaid. Roedd cynlluniau cymorth yn cynnwys

cymorth i ddefnyddio gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau cymorth adfer o gamddefnyddio sylwedau, tai, cyfreithwyr, yr heddlu ac iechyd.

- Ym Mae Colwyn, cafodd 139 o fenywod a 89 o blant a phobl ifanc eu cynorthwyo drwy ein gwasanaethau allgymorth cymunedol; darparwyd cymorth penodol i blant a phobl ifanc hefyd i 151 o blant ychwanegol.
- Yn Wrecsam, cafodd 544 o fenywod a 178 o blant a phobl ifanc a 18 o ddynion eu cynorthwyo drwy wasanaethau eiriolaeth a chymunedol annibynnol.

'Rydych chi wedi fy helpu cymaint. Nawr mae'n bryd i fi wneud pethau ar fy mhen fy hun.'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

'Cymorth eithriadol - yn rhoi cyfle i fi gael fy nghlywed. Erbyn hyn mae gen i lais.'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

100%

o'r goroeswyr yn teimlo'n fwy diogel ar ôl derbyn cymorth

96%

o oroeswyr gynnydd yn eu hyder

99%

o oroeswyr eu bod yn ymdopi'n well â'u profiadau ar ôl cael cymorth

Mae gwasanaethau uniongyrchol hefyd yn darparu amrywiaeth o grwpiau i oroeswyr â'r nod o leihau ynysu, grymuso goroeswyr i ddatblygu rhwydweithiau cymorth anffurfiol, darparu cyfleoedd hamdden a dysgu; datblygu perthynasau iach a chreu mannau diogel ble gall menywod ddatblygu eu hunanhyder a'u pendantrwydd. Eleni, cyflwynwyd 65 o sesiynau er budd uniongyrchol i 95 o fenywod.

'Rwyf i wedi cael cymorth gan bobl sy'n deall beth rwyf i wedi bod drwyddo, Diolch!'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

'Mae pawb yn gwrando ac yn eich deall drwy eu profiadau personol, dim beirniadaeth, dim ond cefnogaeth. Cymerais wyliau o'r gwaith bob wythnos, y defnydd gorau o wyliau erioed!'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

'Mae angen mwy o gymorth grŵp ar fenywod oherwydd mae'n helpu i gael gwared ar y gred mai dim ond fi sy'n mynd drwy hyn, mae'n lleihau ein hunigedd, mae'n ein helpu ni i wneud y cysylltiad bod hyn yn gyffredin – pa un a ydyn ni wedi profi cam-drin rhywiol, artaith emosiynol neu feddyliol neu guro corfforol, mae'n ein helpu ni i'w enwi felly gallwn ni symud ymlaen, mae angen rhagor o grwpiau'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws



Partneriaethau: gweithio gyda'n gilydd i roi'r goroeswyr yn y canol, gweithredu ar argymhellion goroeswyr a chyflawni 'newid sy'n para'

Parhaodd a chryfhaodd ein gwaith i gynnwys a gosod goroeswyr yng nghanol gwaith partneriaeth a chreu polisi eleni. Parhaom ni hefyd i weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo'r egwyddorion a'r agwedd sy'n sail i'r model partneriaeth newydd 'Newid sy'n Para' i gyflawni ymyrraeth gynharach mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Mae deall sut mae goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod yn defnyddio ac yn profi gwasanaethau cyhoeddus yn allweddol i wella effeithiolrwydd gwasanaethau a systemau atal, diogelu a chymorth yng Nghymru.

Drwy gydol 2015/16, buom ni'n datblygu ein gwaith ymgysylltu cenedlaethol gyda goroeswyr gan drefnu nifer o grwpiau ffocws i oroeswyr yng Nghymru i gyfrannu at ymatebion i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan wasanaethau a'r gymuned.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, daeth 66 o oroeswyr trais a cham-drin i grwpiau ffocws ar draws Cymru, wedi'u trefnu gan Cymorth i Ferched

'Dylai'r Llywodraeth glywed gan fenywod, menywod sydd wedi bod drwyddi, yn barhaus, neu fel arall byddant yn cael syniadau fydd ddim yn gweithio. Gall unrhyw un ohonon ni ... mae digon ohonon ni wedi bod drwyddi felly gallwn ni helpu'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Cymru a'u harwain gan hwylusydd annibynnol, i ganfod sut mae goroeswyr yn profi gwasanaethau cyhoeddus a chlywed eu hargymhellion am well ymarfer a blaenoriaethau strategaeth cenedlaethol. Cyflwynwyd adroddiad y grwpiau hyn – **"Ydych chi'n gwrando ac ydw i'n cael fy nghlywed? - adroddiad ar argymhellion goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru"** i'r Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol ac i Lywodraeth Cymru yn 2016, a'i gylchredeg i gomisiynwyr ar draws Cymru.

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau y caiff yr argymhellion a wnaed gan oroeswyr a gyfranogodd sylw cenedlaethol.

'Mae angen i bob sefydliad wrando arnon ni a'n cymryd ni o ddifri. Roeddwn i'n un o'r rheini oedd yn dweud pam na wnaiff hi adael? neu sut gall hi adael ei phlant? ... ond rydych chi'n mynd drwyddi ac yn clywed straeon pobl eraill ac rydych chi'n deall'

— Goroeswr, Grŵp Ffocws

Nododd goroeswyr 10 argymhelliaid allweddol i Lywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus

- 1.** Gwasanaethau arbenigol penodol ar gael ym mhob ardal i blant a phobl ifanc a effeithir gan neu sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol, FGM, priodas dan orfod, cam-fanteisio neu aflonyddu rhywiol.
-
- 2.** Gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol ar gael ym mhob ardal i oroeswyr, sy'n hygyrch ac yn derbyn adnoddau i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o oroeswyr.
-
- 3.** Gwell ymwybyddiaeth ac ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan weithwyr proffesiynol yn y system cyflawnder teuluol (CAFCASS Cymru, barnwyr a phersonél y llys, canolfannau cyswllt) a chyswllt diogel i blant gyda rhieni/gofalwyr yn dilyn gwahanu, mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
-
- 4.** Cymorth 'gwasanaeth lloches' hygyrch ym mhob ardal, ynghyd ag opsiynau cartrefu diogel, fforddiadwy, tymor hirach i oroeswyr cam-drin, sy'n cynnig hyblygrwydd, dewis ac sy'n diwallu anghenion goroeswyr.
-
- 5.** Grwpiau menywod a chymorth cymheiriad ar gael ym mhob ardal, i leihau ynysu a chynyddu mannau annibynnol sy'n gwella hyder, parch a grymuso.
-
- 6.** Diogelu a chymorth i'r holl oroeswyr nad ydynt yn gallu manteisio ar gyllid cyhoeddus er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at ddiogelwch, cymorth amddiffyn a chyflawnder, a chyllid i fyw'n annibynnol, beth bynnag yw statws mewnfudo a phreswylio'r goroeswyr.
-
- 7.** Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oroeswyr ar gael ym mhob ardal, fel bo'r angen, sy'n briodol i'r oedran ac yn helpu i adeiladu gwydnwch a gwella ar ôl cam-drin.
-
- 8.** Canolbwytio mwy ar atal ymddygiad cyflawnwyr a'u dal i gyfrif gan y gwasanaethau cyhoeddus, a lle bo trais a cham-drin yn cynnwys rheolaeth gymhellol, gweithredu gan y gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod cyflawnwyr yn gadael ac yn diweddu perthynasau camdriniol.
-
- 9.** Gwell hyfforddiant i'r holl wasanaethau ar agweddau ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dan arweiniad profiadau goroeswyr.
-
- 10.** Atal traes yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy addysg ataliol orfodol ym mhob ysgol a choleg, cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a'r cymorth sydd ar gael mewn cymunedau lleol ar draws Cymru.



Rachel Williams, Llysgennad Goroesi i Brosiect Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched Cymru:

‘Rwyf i wedi bod yn dweud ers tro y dylid dysgu am berthynas iach i bobl ifanc, mae angen i blant wybod bod help ar gael. Os yw plant yn cael eu magu mewn cartref lle ceir cam-drin mae angen dysgu iddyn nhw nad yw hynny’n normal a bod help ar gael. Gyda dwy fenyw bob wythnos yn marw oherwydd traoris domestig a thua 1 plentyn ym mhob 5 yn cael eu hamlygu i gam-drin domestig, dyw hynny ddim yn ddigon da, mae angen i ni wneud mwy.’

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom hefyd yn **cydweithio gyda phobl ifanc** ar brosiect gyda’r Athro Emma Renold ym Mhrifysgol Caerdydd, NSPCC Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, i ddatblygu a chyflwyno canllaw i bobl ifanc ar agwedd addysg gyfan at atal. Mae AGENDA – sydd i’w lansio yn 2016 – yn adnodd a ddatblygyd gan bobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae’n cynnwys rhaglen o

weithgareddau ac adnoddau i’w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a chymunedau.

Mae goroeswyr yn dweud wrthym ni dro ar ôl tro bod y gwasanaethau cyhoeddus yn dal i fethu â gwrando ar oroeswyr, diwallu eu hanghenion a’u cefnogi i gyflawni adferiad tymor hir, annibyniaeth a rhyddid rhag cam-drin.

Y llwybr at gymorth yn aml yw asesiad o’r ‘risg’ mae’r cyflawnwr yn ei beri i oroeswyr, gyda’r mwyafrif o’r goroeswyr na phennir yn ‘risg uchel’ yn syrrhio rhwng bylchau’r gwasanaethau, gan arwain at argyfwng cynyddol o angen sydd heb ei ddiwallu. Nid yw dull yn seiliedig ar risg yr un fath ag ymyrraeth gynnar, nid yw’n cefnogi adferiad ac annibyniaeth ac nid yw’n lleihau cam-drin domestig yn gyffredinol.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda Cymorth i Ferched yn Lloegr i ddatblygu model gwasanaeth newydd – Newid sy’n Para – ein nod yw rhoi cryfderau ac anghenion menywod yng nghanol y penderfyniadau amdanynt nhw a’u teuluoedd.


Newid sy’n Para: mae pob pwynnt cysw/i/t gyda
ac ni ddylai fyth ychwanegu at y rhwysterau

Mae ein gwaith yn 2015-16 wedi cynnwys hyrwyddo egwyddorion ac agwedd fydd yn cyflawni newid sy'n para ar draws Cymru, i sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn parhau'n ganolog wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r model a Sefydliad Lankelly Chase am ein galluogi i ddatblygu dull gweithredu i newid y system, rydym ni wedi sicrhau cyllid partneriaeth gan Lywodraeth San Steffan a Comic Relief, drwy Women's Aid yn Loegr, i beilota amlyu mannau datgelu diogel mewn cymunedau lleol o 2016 (cynllun 'Holwch Fi') fydd yn cynnwys elfen gref o werthuso i dystio'r dull.


'Mae menywod yng Nghymru wedi dweud wrthym ni pa mor bwysig yw hi i gymunedau lleol ddeall cam-drin domestig, traus rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod. Mae'n hynod o bwysig bod ganddynt lwybrau effeithiol i wella datgelu mewn cymunedau lleol, er mwyn gallu sicrhau diogelwch a chymorth. Mae Cymru'n cynnig cyfle unigryw i beilota agwedd newydd at ymyrraeth gynnar ac atal, er mwyn cryfhau gwybodaeth gymunedol a gwydnwch, caiff gweithwyr proffesiynol eu hyfforddi i ofyn a gweithredu, a chynyddir gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth goroeswyr ac adeiladu ar eu cryfderau ar yr un pryd'

— Eleri Butler, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru



goroeswr yn gyfle i ymyrryd. Ni ddylid ei golli, enfawr mae goroeswyr eisoes yn eu hwynnebu.

Sut rydym ni'n gwario'n harian




Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gwario 88% ym mhob punt ar weithgareddau elusennol

88%

ar waith i ddileu cam-drin
domestig a phob math o
drais yn erbyn menywod

12%

ar gymorth busnes,
codi arian a llywodraethu



Ymunwch â ni i gefnogi ein gwaith

Dewch yn gefnogwr Cymorth i Ferched Cymru unigol neu sefydliadol

Os ydych chi'n cefnogi ein nod o ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod, am ffi aelodaeth fisol fach gallwch ymuno â ni fel cefnogwr unigol neu sefydliadol a chlywed y diweddaraf am yr hyn rydym ni'n ei wneud a helpu i gefnogi ein hymgyrchoedd a'n gwaith codi ymwybyddiaeth.

Helpwch ni i godi arian, codi ymwybyddiaeth neu wneud rhodd

A allech chi gefnogi ein gwaith hanfodol ar draws Cymru? Byddai ein tîm yn croesawu unrhyw weithgaredd codi arian, mawr neu fach - ciniawau, gwerthu cacennau, chwaraeon neu nosweithiau cwis yw rhai o'r ffyrdd mae ein cefnogwyr unigol yn gallu ein helpu ni gyda'n gwaith hanfodol. Gallwn ni eich helpu chi ar y ffordd - cysylltwch â ni.

Neu, drwy wneud rhodd ariannol byddwch yn helpu i gyfrannu at ein gwaith hanfodol ar draws Cymru sy'n helpu i achub bywydau goroeswyr a phlant yng Nghymru.

Gellir rhoi nwyddau ac arian hefyd i wasanaethau lleol fydd yn helpu goroeswyr a phlant i adfer ar ôl cam-drin. Mae llawer o wasanaethau lleol yn gweithredu ar gyllidebau cyfyngedig ac yn aml mae goroeswyr yn cysylltu â nhw am help heb arian, dillad neu daclau ymolchi.

I gael rhagor o wybodaeth am ein pecynnau aelodaeth cyfredol, helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'n gwaith, neu i wybod sut i godi arian neu wneud rhodd, cysylltwch â admin@welshwomensaid.org.uk

Gyda diolch...



Ein haelodau o blith y gwasanaethau arbenigol 2015/16

Gwasanaeth Cam-drin Domestig
Aberconwy

Cymorth i Ferched Cwm Aman

Gorwel - Gwasanaeth Cam-drin
Domestig Ynys Môn a Gwasanaeth
Cam-drin Domestig De Gwynedd

Atal Y Fro

Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal

Bawso

Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai
Clwyd Alyn (CAHA)

Gwasanaethau Trais Domestig Calan
(Calan DVS)

Cymorth i Ferched Caerdydd

Gwasanaeth Cam-drin Domestig
Caerfyrddin

Cymorth i Ferched Cyfannol

Uned Diogelwch Cam-drin
Domestig (DASU)

Cymorth i Ferched Glyndŵr

Hafan Cymru

Cymorth i Ferched Llanelli

Canolfan Argyfwng Teuluol Sir
Drefaldwyn

Cymorth i Ferched Casnewydd

Gwasanaeth Cam-drin Domestig
Gogledd Sir Ddinbych (NDDAS)

Cymorth i Ferched Port Talbot ac
Afan

Cymorth i Ferched Sir Faesyfed

Cymorth i Ferched RCT

Cymru Ddiogelach

Cymorth i Ferched Abertawe

Gwasanaeth Cam-drin Domestig
Gorllewin Cymru

Company registration number: 7483469

Rhif elusen cyfrestredig: 1140962